# Cyfarwyddwr Corfforaethol

## Pecyn Recriwtio



CYNGOR
GWYNEDD



# Croeso

Annwyl Ymgeisydd,

<u>Swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol</u>

Diolch i chi am ddangos diddordeb mewn ymgeisio am y swydd allweddol hon.

Mae Gwynedd yn enwog am ei harddwch naturiol, ond mae'r Sir mewn gwirionedd yn un unigryw ac amrywiol iawn a'n huchelgais ni fel Cyngor ydi gweld ein cymunedau a'n pobl yn ffynnu.

Mae'r swydd yma yn allweddol i helpu cynrychiolwyr ein cymunedau i wireddu'r uchelgais honno. Gyda hynny mewn golwg, rydym yn hynod falch eich bod yn ystyried ymuno â ni wrth i ni weithio tuag at wireddu'r nod.

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ac ariannol cadarn iawn yn eu lle, ac mae angen Cyfarwyddwr blaengar all barhau i adeiladu ar y seiliau hynny.

Rydym yn flaengar yn ein defnydd o'r Gymraeg, ac wedi gwneud enw i'n hunain fel cyflogwr sydd yn arwain yn y maes. Byddwch yn llysgennad i'r iaith yn lleol ac yn genedlaethol, gan barhau i adeiladu ar y seiliau sydd eisoes yn eu lle.

Rydym felly am benodi unigolyn sydd â phrofiad eang, yn arweinydd profiadol ac arloesol, sy'n deall sefyllfa unigryw Gwynedd fel Sir ac a fydd yn gallu cydweithio â'n haelodau etholedig, ein staff a'n partneriaid allanol i barhau ar y daith o droi ein huchelgais yn realiti. Mae'n dull ni o weithio, sef Ffordd Gwynedd, yn bwysig iawn i ni ac rydym angen cyfarwyddwyr a fydd yn parhau i ddatblygu a gwreiddio'r cysyniad hwnnw.

Mae Cyngor Gwynedd ar drothwy cyfnod hynod gyffrous yn ein hanes gydag amrywiaeth eang o heriau newydd yn wynebu ein cymunedau. Mae'r swyddi hyn yn gyfle gwirioneddol i unigolion talentog fod yn rhan o Gyngor sydd yn gweithio'n arloesol, er lles ein pobl yn y Sir.

Ceir holl fanylion y swydd ynghyd â manylion cefndirol eraill yn y ddogfen sydd i ddilyn. Gellir cael manylion pellach am ein gwaith fel Cyngor ar ein gwefan https://www.gwynedd.llyw.cymru/PenodiCyfarwyddwrCorfforaethol



Yn y cyfamser, pe byddech yn dymuno cael sgwrs anffurfiol ar unrhyw agwedd o'r swydd mae croeso i chi gysylltu â Dafydd Gibbard, ein Prif Weithredwr, ar 01286 679002.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Yn gywir,

**Dafydd Gibbard**

Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd



# Hysbyseb Swydd: Cyfarwyddwr Corfforaethol

Cyflog: £97,940 - £108,595

- Ydych chi'n arweinydd profiadol ac arloesol, yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf?
- Ydych chi'n awchu i fod yn rhan o dîm o swyddogion ac aelodau etholedig sydd yn rhoi o'u gorau i drigolion ein cymunedau?

Rydym yn awyddus i recriwtio Cyfarwyddwr Corfforaethol fydd yn chwarae rhan allweddol mewn arwain y ffordd i wireddu'r weledigaeth sydd gan y Cyngor ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn sefydliad arbennig ac unigryw, sydd â gweithlu ac Aelodau Etholedig sydd yn frwdfrydig ac ymrwymedig i sicrhau'r gorau i bobl y Sir. Mae'r Cyngor yn cael ei ystyried fel un o'r awdurdodau lleol sydd yn perfformio orau yng Nghymru a un o'r heriau ar gyfer y dyfodol fydd parhau i arloesi a darparu gwasanaethau o safon i drigolion Gwynedd.

Rydym am benodi unigolyn fydd yn gallu cydweithio'n agos â'r Prif Weithredwr, arweinwyr gwleidyddol y Cyngor a phartneriaid allanol er mwyn trosi eu dyheadau ar gyfer pobl Gwynedd yn weithredu cadarn. Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cynorthwyo'r Prif Weithredwr i arwain a siapio diwylliant sy'n seiliedig ar barch, ymddiriedaeth, atebolrwydd, grymuso ac arfogi eraill.

Rydym yn chwilio am arweinydd profiadol ac arloesol, sydd yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf, gyda'r gallu i arwain staff y Cyngor i droi'r weledigaeth yn realiti. Mae'r her yn fawr ond yn un gyffrous, ac rydym am glywed gan unigolion talentog sy'n awyddus i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl y Sir.

Rydym yn flaengar yn ein defnydd o'r Gymraeg, ac wedi gwneud enw i'n hunain fel cyflogwr sydd yn arwain yn y maes, gan weithredu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg a chynnig ein holl wasanaethau yn ddwyieithog. Bydd angen i'r ymgeisydd gyrraedd y lefel ieithyddol sy'n cael ei nodi yn y manylion person.

Os ydych yn barod am yr her yma ac yn awyddus i weithio ag arweinyddiaeth y Cyngor i arloesi a gwneud gwahaniaeth o fewn corff cyhoeddus mawr, yna byddwn yn croesawu'ch cais.

**Dyddiad Cau: 10yb, 30/6/2025**



# Trosolwg o'r Sir

Mae trigolion Gwynedd ymhlith yr hapusaf yng Nghymru. 'Does syndod a dweud y gwir, o ystyried bod rhan helaeth o'r sir o fewn ardaloedd o harddwch eithriadol, yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri. Gydag amgylchedd glân a hamddenol, mae arfordir a mynyddoedd Gwynedd yn hafan ddelfrydol i adfywio'r enaid.

Mae ein cymunedau ymhlith y mwyaf diogel yn y wlad, a'n dwyieithrwydd naturiol yn cyfoethogi'r diwylliant lleol ym mhob agwedd ar fywyd. Mae'n lle gwych i fagu'r genhedlaeth nesaf, ac mae'r ysgolion a cholegau addysg bellach sydd yn y sir yn cynnig addysg a hyfforddiant heb eu hail.

## Mae gan Wynedd...

**2,896 km** o ffyrdd

**301 km** o arfordir

**63,220** o dai

arwynebedd o **2,535 km²**



boblogaeth o **117,400**

**28%** o'r gweithlu yn gweithio yn
meysydd Addysg ac Iechyd

**73,560** o siaradwyr Cymraeg, sef **64%** o'r boblogaeth 3+ oed

# Ein gwaith yma yng Nghyngor Gwynedd

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

Pwrpas y Cynllun hwn yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2028. Mae'r Cynllun yn dangos pam ein bod am ganolbwyntio ein hegni a'n hadnoddau mewn rhai meysydd. Mae modd gweld y Cynllun yn ei gyfanrwydd drwy ddilyn y ddolen yma:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%c3%afau/Cynlluniau-corfforaethol-a-strategaethau/Cynllun-y-Cyngor/Cynllun-Cyngor-Gwynedd-2023-28.aspx

Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth

01. **GWYNEDD YFORY**
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a pobl ifanc

02. **GWYNEDD LEWYRCHUS**
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

03. **GWYNEDD GLYD**
Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau

04. **GWYNEDD OFALGAR**
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

05. **GWYNEDD GYMRAEG**
Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

06. **GWYNEDD WERDD**
Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

07. **GWYNEDD EFFEITHLON**
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

# Ffordd Gwynedd

Ffordd Gwynedd yw'r enw a roddir ar y "ffordd o weithio" yr ydym ni wedi'i mabwysiadu er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.






Nid proses na syniad damcaniaethol ydi hyn ond yn hytrach gasgliad o drefniadau gwaith, ymddygiadau a diwylliant sydd, gyda'i gilydd, yn caniatáu i ni fod yn hyderus ein bod yn edrych ar y gwasanaeth trwy lygaid y defnyddiwr.

Ceir gwybodaeth fanwl ar y cysyniad hwn yn y dogfennau sydd yn yr atodiadau i'r pecyn recriwtio hwn.




# Y Cabinet

Mae'r Cabinet yn cynnwys 10 Cynghorydd ac yn cael ei gadeirio gan Arweinydd y Cyngor. Mae gan bob Aelod bortffolio penodol o gyfrifoldeb am feysydd o fewn gwasanaethau'r Cyngor.

| Deilydd | Maes | Deilydd | Maes |
|---|---|---|---|
|  Cyng. Nia Jeffreys | Arweinydd y Cyngor |  Cyng. Menna Trenholme | Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd |
|  Cyng. Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion |  Cyng. Craig ab Iago | Aelod Cabinet Amgylchedd |
|  Cyng. Llio Elenid Owen | Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol |  Cyng. Dewi Jones | Aelod Cabinet Addysg |
|  Cyng. Paul Rowlinson | Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |  Cyng. Huw Wyn Jones | Aelod Cabinet Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth |
|  Cyng. Medwyn Hughes | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |  Cyng. June Jones | Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd |

# Tim rheoli Corfforaethol



# Swydd Ddisgrifiad

**Teitl Swydd**: Cyfarwyddwr Corfforaethol
**Cyflog**: £97,940 - £108,595

## RÔL SYLFAENOL

Gweithio mewn partneriaeth gydag aelodau etholedig a'r Prif Weithredwr i'w cynorthwyo i lunio gweledigaeth o'r hyn y maent yn dymuno ei gyflawni ar gyfer pobl Gwynedd ac i roi'r weledigaeth honno ar waith.

Cefnogi'r Prif Weithredwr i gynghori'r Cyngor a'r Cabinet ar faterion polisi a blaenoriaethau yn ogystal â'r penderfyniadau o ran dyraniad adnoddau sy'n deillio o hynny.

Arwain yn weledol ac ysgogi Uwch Reolwyr y Cyngor a'u staff i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd.

Dan arweiniad y Prif Weithredwr, sicrhau bod yna gydlyniad corfforaethol drwy holl weithgareddau'r Cyngor ynghyd â defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau a bod yna drefniadau llywodraethiant cadarn i'r pwrpas hwnnw.

Cynnig arweiniad trwy esiampl a siapio diwylliant sy'n seiliedig ar barch, ymddiriedaeth, atebolrwydd, grymuso ac arfogi sy'n gyson â'r egwyddor sylfaenol o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

- Sicrhau bod yr Aelodau etholedig yn derbyn cyngor priodol er mwyn galluogi iddynt wireddu eu dyheadau.
- Gweithio'n agos gyda'r Arweinydd, aelodau'r Cabinet a'r Prif Weithredwr er mwyn datblygu gweledigaeth gorfforaethol ac i lunio Cynllun Corfforaethol y Cyngor fydd yn gosod amcanion llesiant y Cyngor, yn seiliedig ar anghenion pobl Gwynedd, a sut y bwriedir 13 cyflawni'r amcanion hynny
- Cyfrannu i'r broses blaenoriaethu adnoddau ariannol a sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni ei raglen arbedion ariannol.
- O sefydlu'r hyn sydd angen ei gyflawni, cefnogi a chynorthwyo'r Prif Weithredwr i sicrhau bod adrannau yn cynhyrchu cynlluniau gweithredu priodol er mwyn cyflawni amcanion, gan nid yn unig ddal gwasanaethau yn atebol am gyflawni'r hyn y disgwylir iddynt ei gyflawni ond hefyd eu cefnogi a'u cynghori ar sut i wneud hynny.
- Hyrwyddo, annog ac ysgogi cydweithio traws-adrannol ar amryw raglenni a phrosiectau • Darparu cefnogaeth briodol i'r Aelodau Cabinet ar gyfer herio perfformiad er mwyn gwella gwasanaeth gan hefyd gynghori ar graffu rhagweithiol o fewn trefniadau craffu ffurfiol ac anffurfiol y Cyngor.

- O fewn yr amlen gwariant a sefydlir gan y Cyngor, bydd Cabinet y Cyngor yn blaenoriaethu gwariant o fewn yr amlen honno, gyda'r gofyn i'r Cyfarwyddwr gynghori a chynorthwyo'r Prif Weithredwr i sicrhau arweiniad priodol o ran gosod y blaenoriaethau hynny a sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau.

- Ymgymryd â rôl flaenllaw i sicrhau bod trefniadau llywodraethu o'r safon uchaf ar waith o fewn y Cyngor er mwyn rhoi sicrwydd i drigolion Gwynedd o atebolrwydd a chadernid trefniadau gweithredu'r Cyngor.

- Sicrhau bod yna drefniadau priodol ar gyfer adnabod, deall a chofnodi risgiau gan gynnwys llinellau atebolrwydd priodol i ymdrin â hwy.

- Canolbwyntio ar sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau cost effeithiol ac o ansawdd uchel drwy ddarparu her briodol a chefnogaeth barhaus i adrannau.

- Arwain yn weledol ac ysgogi Uwch Reolwyr y Cyngor a'u staff i berchnogi egwyddorion gweithredu Ffordd Gwynedd er mwyn cyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl y Sir.

- Sicrhau fod gwasanaethau o fewn y Cyngor yn glir o ran beth y mae disgwyl iddynt ei gyflawni ar gyfer pobl Gwynedd, a bod ganddynt fesuryddion clir a mesuradwy er mwyn arddangos sut y maent yn cyflawni hynny.

- Arfogi a chefnogi Penaethiaid i fedru cyflawni eu rôl i'r safon ddisgwyliedig gan gynnwys sicrhau fod ganddynt y sgiliau i wneud hynny; cynnig her lle'n briodol a sicrhau eu hatebolrwydd am gyflawni eu rôl i'r safon ddisgwyliedig.

- Sicrhau bod gwasanaethau yn adnabod unrhyw rwystrau i'n gallu i gyflawni'r gwasanaethau gorau i bobl Gwynedd a bod yna weithredu priodol i ymateb i'r rhwystrau hynny.
- Cynnig arweiniad trwy esiampl a siapio diwylliant sy'n seiliedig ar barch, ymddiriedaeth, atebolrwydd, grymuso ac arfogi.

- Gweithredu mewn ffordd ragweithiol; bod yn agored i feddwl yn wahanol; yn egnïol ac ymroddedig gydag uniondeb personol er mwyn cyflawni'r swyddogaethau a berthyn i'r swydd gan gymryd rôl flaenllaw yn hyrwyddo'r un ymddygiadau ymysg holl staff y Cyngor.

- Gyrru amgylchedd o fewn y Cyngor sydd yn hyrwyddo ac yn annog llesiant staff

- Cefnogi'r Prif Weithredwr i gynnal a datblygu trefniadau cyfathrebu effeithiol o fewn a thu allan i'r Cyngor.

- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol er mwyn adeiladu a meithrin perthynas dda gyda hwy gan ddylanwadu a siapio gweithgareddau a pholisïau'r cyrff hynny er mwyn ceisio sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd.
- Hwyluso a hyrwyddo yr ethos o weithio trwy bartneriaeth gyda chyrff eraill gan gynnwys darparwyr, busnesau, elusennau a'r sector wirfoddol a hynny oll er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bobl Gwynedd.

- Hyrwyddo'r rôl arweinwyr cymunedol sydd gan Aelodau etholedig • Dirprwyo ar ran y Prif Weithredwr yn ôl yr angen

- HUNAN ADLEWYRCHU - ar gyflawniad personol yr hyn sydd yn y swydd ddisgrifiad.

# Cymwyseddau Allweddol

- Yn meddu ar brofiadau eang a'r gallu i ddadansoddi materion cymhleth i ddarganfod yr hyn sydd angen sylw.
- Y gallu i feddwl yn rhesymegol.
- Yn gallu gwrando, dadansoddi a chrynhoi a darganfod atebion drwy drosi dyheadau gwleidyddol i weithrediadau cadarn.
- Dealltwriaeth o natur unigryw Gwynedd fel sir.
- Yn deall ein hamgylchiadau gwleidyddol ni yma yng Ngwynedd ac yn gallu helpu arweinwyr gwleidyddol y Cyngor i sefydlu ffordd o wireddu eu dyheadau wrth weithio gydag awdurdodau eraill o fewn y sir; awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth; sefydliadau eraill rhanbarthol a'r Llywodraeth Genedlaethol.
- Yn gallu ennyn parch gweithlu'r Cyngor a'u hysbrydoli. • Yn meddu ar weledigaeth i fedru llywio'r ffordd ymlaen er mwyn gwreiddio diwylliant Ffordd Gwynedd drwy'r holl sefydliad.
- Yn fodlon herio aelodau mewn ffordd gadarn ond gan hefyd barchu'r egwyddor mai'r aelodau sydd wedi eu hethol i benderfynu ar ran pobl Gwynedd.
- Yn gallu gweithredu drwy arfogi eraill i gyflawni a'u dal yn atebol am wneud hynny.
- Yn angerddol am y Gymraeg ac yn gallu dangos ei h/ymroddiad iddi. • Yn deall yr amgylchedd ariannol yr ydym yn gweithio oddi mewn iddi ac yn gallu cynnig cyfeiriad sy'n caniatáu i ni gyflawni ein dyheadau tra'n dygymod gyda'r sefyllfa ariannol sydd ohoni;
- Yn fodlon cadw meddwl agored i syniadau newydd a bod yn fodlon mentro.
- Yn reddfol yn gallu creu a chynnal perthynas gydag amrediad o bobl - o weinidogion a gweision sifil y Llywodraeth; aelodau etholedig; staff a thrigolion unigol;
- Yn meddu ar integriti; yn un sy'n siarad yn agored a thrwy hynny yn dangos ei b/fod yn unigolyn y gallwch ymddiried ynddi neu ynddo.
- Yn cyfathrebu'n glir ac yn gallu teilwrio'r cyfathrebu i wahanol gynulleidfaoedd.
- Cyfathrebu effeithiol ac i safon uchel yn llafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Yn gallu dangos empathi a deallusrwydd emosiynol
- Yn egnïol, yn ymroddedig ac yn unigolyn sy'n chwilio am ddatrysiadau yn hytrach na threulio amser gormodol mewn cyfarfodydd yn siarad

**Dynodiad Iaith y Swydd:**

Gwrando a Siarad: Uwch
Darllen a Deall: Uwch
Ysgrifennu: Uwch



# Amodau a thelerau gwaith Cyffredinol Cyfarwyddwr Corfforaethol

**1.** Bydd y penodiad yn cael ei wneud yn unol ag amodau a thelerau'r Cydbwyllgor Trafod i Brif Swyddogion Llywodraeth Leol (gan gynnwys unrhyw addasiadau lleol i'r telerau hynny), neu delerau lleol ehangach eraill sydd yn rhan o gytundeb torfol rhwng y Cyngor a'r undebau llafur.

**2. Oriau gwaith**
Yr oriau gwaith wythnosol safonol ydi 37 awr, ond mae natur y swydd yn golygu y bydd angen i'r sawl a benodir weithio oriau anghymdeithasol y tu hwnt i hynny hefyd.

**3. Lleoliad**
Swydd wedi'i leoli yng Nghaernarfon, ond mae yna bosib defnyddio cynllun gweithio'n hybrid y Cyngor hefyd.

**4. Amser gwasanaeth**
Bydd holl amser gwasanaeth deilydd y swydd yn cael ei dreulio ar waith y Cyngor. Ni chaniateir iddo / iddi ymgymryd ag unrhyw waith na chyflogaeth arall heb ganiatâd penodol y Cyngor.

**5. Cyflog**
- Graddfa cyflog y swydd yw £97,940 - £108,595
- Bydd cynnydd trwy hicynnau o fewn y raddfa gyflog ar sail blynyddol a hynny ar y 1af o Ebrill bob blwyddyn, yn ddibynnol ar ddatblygiad boddhaol o fewn y swydd.
- Telir y cyflog yn fisol trwy drosglwyddiad credyd banc ar yr 22ain o bob mis.

**6. Treuliau**
- Caniateir treuliau teithio a chynhaliaeth ynghyd ag unrhyw dreuliau eraill priodol ar sail yr hyn a benderfynwyd gan y Cyngor ac yn unol â'r cytundeb cenedlaethol fel y mabwysiadwyd neu y diwygiwyd gan y Cyngor.
- Dynodir y swydd yn un defnyddiwr car at ddefnydd y swydd yn ôl y galw. Pan fyddwch yn defnyddio'r car ar fusnes y Cyngor telir treuliau i chi yn unol â'r raddfa **achlysurol.**

**7. Gwyliau**
- Mae blwyddyn wyliau'r Cyngor yn dechrau ar y cyntaf o'r mis sy'n dilyn y mis y penodwyd chi i'ch swydd. Caniateir 31 diwrnod o wyliau gyda 5 diwrnod ychwanegol ar ôl cwblhau 5 mlynedd o wasanaeth di-dor.
- Yn ogystal caniateir 10 diwrnod o wyliau banc a gwyliau statudol ychwanegol, ynghyd ag un diwrnod a hanner ychwanegol a ganiateir gan y Cyngor.

**8. Rhybudd**
Isafswm y cyfnod rhybudd gan y ddwy ochr fydd 3 mis

**9. Buddiannau.**
Mae pecyn buddiannau ar gael tra'n gweithio i Gyngor Gwynedd, gan gynnwys:

- Mynediad i gynllun pensiwn llywodraeth leol – cynllun pensiwn sydd yn golygu fod cyfraniadau'r Cyngor i'ch cronfa bensiwn bersonol yn 19.2%. Mae llawer o fuddion eraill ynghlwm â'r cynllun hefyd – cysylltwch os am fwy o fanylion.
- Gweithio'n hyblyg – cyflogwr sydd yn fodlon ystyried, ac wedi arddangos, ei barodrwydd i gefnogi staff i weithio ar sail hyblyg, fel sail i ganfod balans gwaith a bywyd llesol.
- Pecyn adleoli o dan amodau penodol – cefnogaeth ariannol ar gael i symud cartref, o dan amodau penodol. Cysylltwch os am fwy o wybodaeth.
- Cyfraniad ariannol tuag at aelodaeth o un corff proffesiynol
- Mynediad posib i fuddiannau eraill megis Cynllun prynu car, Cynllun prynu beic, Cynllun gostyngiadau gyda busnesau lleol a chenedlaethol.

**10. Cyfyngiadau Gwleidyddol**
Mae'r swydd hon yn un sydd wedi ei chyfyngu yn wleidyddol o dan ddarpariaeth Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae hynny'n golygu na ddylai'r deilydd ddangos tuedd wleidyddol

# Amserlen y Broses

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cau | 30/06/2025 (10yb) |
| Tynnu rhestr fer | 08/07/2025<br>Bydd y rhai ar y rhestr fer angen cwblhau prawf seicometreg ar-lein erbyn fan bellaf 17.00 o'r gloch ar 15/07/25. Anfonir y wybodaeth atoch cyn diwedd y dydd ar y 09/07/2025. |
| Proses Asesu (yn cael ei gynnal gan gwmni allanol) | O'r 09/07/2025 ymlaen<br>(manylion pellach i ddilyn wedi tynnu'r rhestr fer) |
| Canolfan Asesu (mewnol) | 14/07/2025.<br>Bydd y broses fewnol hon yn cael ei chynnal yn Nghaernarfon, ac felly gofynnir i chi gadw'r diwrnod yn rhydd am y tro. |
| Cyfweliad a Phwyllgor Penodi Prif Swyddogion y Cyngor | 24/07/2025 |

# Sut i Ymgeisio

I gofrestru eich diddordeb yn y swydd allweddol hon ac i dderbyn gwybodaeth ar sut i fynd ati i gyflwyno'ch cais, gallwch anfon e-bost at ein Gwasanaeth Adnoddau Dynol ar PenodiCyfarwyddwrCorfforaethol@gwynedd.llyw.cymru yn y lle cyntaf.

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnig ei holl wasanaethau yn ddwyieithog. Bydd angen i'r ymgeisydd gyrraedd y lefel ieithyddol sy'n cael ei nodi fel un o'r sgiliau hanfodol yn y Manylion Person

Rydym yn annog pob ymgeisydd am swydd gyda'r Cyngor i gyflwyno ceisiadau yn Gymraeg neu yn ddwyieithog

(Bydd ceisiadau sydd yn cael eu cyflwyno yn uniaith Gymraeg neu Saesneg yn cael eu trin yn gwbl gyfartal, ond gofynnir i'r ymgeisydd ystyried yn ofalus beth yw gofynion iaith y swydd a'r sefydliad ac a fyddai cyflwyno cais yn uniaith Gymraeg yn fwy addas.)

Byddwn yn cydnabod derbyn eich cais, a hefyd yn cysylltu â chi er mwyn cadarnhau a ydych wedi eich rhoi ar y rhestr fer ai peidio.

Bydd y broses hon yn un gyfan gwbl rithiol; byddwch yn derbyn arweiniad a chyfarwyddiadau ymlaen llaw ynghylch sut i gymryd rhan yn y broses yn llawn, a bydd gennym dîm o swyddogion yn y cefndir a fydd yn cefnogi a hwyluso'r broses, fel ei bod yn rhedeg mor esmwyth â phosib.

I gloi, diolch i chi am ddangos diddordeb yn y swydd hon yng Nghyngor Gwynedd

Dyddiad cau: 10:00 y bore, 30 o Fehefin, 2025, gyda'r ceisiadau i'w hanfon at: PenodiCyfarwyddwrCorfforaethol@gwynedd.llyw.cymru

**Ymholiadau**
Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â'n Prif Weithredwr, Mr Dafydd Gibbard ar 01286 679002.

I gofrestru'ch diddordeb ac i dderbyn gwybodaeth ynghylch sut i ymgeisio, cysylltwch â'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol ar PenodiCyfarwyddwrCorfforaethol@gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR GWYNEDD

2. **Dyddiadau allweddol:**
Os y bydd eich cais ar y rhestr fer, bydd gofyn i chi fod ar gael gyfer y Broses Asesu a'r Cyfweliad gyda'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion. Gofynnwn i chi gadw'r dyddiad ar gyfer y Cyfweliad Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion yn gwbl glir am y tro.

- Dyddiad Cau – **30/06/2025 ( 10 o'r gloch y bore)**
- Tynnu rhestr fer – 08/07/2025 - Bydd y rhai ar y rhestr fer angen cwblhau prawf seicometreg ar-lein erbyn fan bellaf 17.00 o'r gloch ar 15/07/25. Anfonir y wybodaeth atoch cyn diwedd y dydd ar y 09/07/2025.
- Proses Asesu – bydd cwmni allanol yn cynnal asesiad o'r 09/07/2025 ymlaen (manylion pellach i ddilyn wedi tynnu'r rhestr fer) a bydd proses mewnol yn cael ei chynnal ar 14/07/2025. Bydd y broses fewnol hon yn cael ei chynnal yn Nghaernarfon, ac felly gofynnir i chi gadw'r diwrnod yn rhydd am y tro.
- Cyfweliad gyda'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion – 24/07/2025

Edrychwn ymlaen i dderbyn eich cais a pheidiwch ac oedi i gysylltu â ni os y gallwn fod o gymorth pellach.

CYNGOR GWYNEDD